



16 Gorffennaf 2015

Annwyl Gadeirydd

Bil Drafft Cymru

Fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU gyhoeddi Bil drafft Cymru yn yr hydref gyda chyfnod o ymgynghori i ddilyn, cyn i'r Bil ei hun gael ei gyflwyno rywbryd yn ystod gwanwyn 2016.

Rwyf wedi trafod y mater gyda'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rydym wedi cytuno mai'r Pwyllgor hwnnw sy'n darparu'r cyfrwng mwyaf priodol i'r Cynulliad ystyried y Bil drafft. Yr wyf yn hyderus bod gan y Pwyllgor yr aelodaeth, yr arbenigedd a'r gallu i lunio ymateb cynhwysfawr ac awdurdodol i mi ac i'r Cynulliad ei ystyried a, gobeithio, ei gymeradwyo.

Er bod y Bil yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, caiff ei waith craffu ei gryfhau'n sylweddol os bydd pwyllgorau eraill yn cymryd rhan yn y gwaith. Yn benodol, bydd yn bwysig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac i'r Cynulliad cyfan allu manteisio ar arbenigedd polisi pwyllgorau eraill wrth archwilio effaith disodli ein model presennol o bwerau a roddir gyda model newydd o bwerau neilltuedig.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ystyried gyda'ch Pwyllgor sut i wneud lle yn yr hyn yr wyf yn sicr fydd yn rhaglen brysur iawn yn yr hydref, i ymgymryd ag archwiliad difrifol o'r Bil mewn perthynas â chylch gwaith eich Pwyllgor. Bydd eich tîm clericio yn gallu rhoi cyngor ar sut i amseru eich ymateb i ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a sicrhau y gall y Cynulliad ddylanwadu ar y ddadl yn San Steffan.

**Rosemary Butler AC, Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6232

Ebost/Email: private.office@assembly.wales

Croesewir goheblaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh